PPLROS3W
Cynnal amgylchedd iach a diogel yn y diwydiant rheilffyrdd

Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud a chynnal gweithle iach a diogel a chyfrannu i amgylchedd gweithio diogel. Bydd yn rhaid i chi allu delio ag argyfyngau yn unol a gweithdrefnau'ch sefydliad. Bydd yn rhaid i chi wybod a deall polisïau'ch sefydliad ynglŷn a chynnal diogelwch.

Cynnwys yr uned:

1 Cynnal gweithle iach a diogel

Mae'r elfen hon yn ymwneud a sicrhau bod eich gweithle'n rhydd rhag peryglon. Dylech fod yn gallu cymryd mesurau i rybuddio pobl am beryglon a delio ag argyfyngau yn unol a gweithdrefnau'ch sefydliad.

2 Cyfrannu i amgylchedd gweithio diogel

Mae'r elfen hon yn ymwneud a helpu i gynnal amgylchedd gweithio diogel. Dylech wybod a deall polisïau a gweithdrefnau'ch sefydliad a beth yw'ch cyfrifoldebau am gynnal diogelwch.

Grŵp Targed

Mae'r uned hon i oruchwylwyr, arweinwyr tîm a thechnegwyr sy'n gweithio mewn rolau gweithrediadau rheilffyrdd.

PPLROS3W
Cynnal amgylchedd iach a diogel yn y diwydiant rheilffyrdd

Meini prawf perfformiad

Cynnal Gweithle Iach a Diogel

Rhaid i chi allu:

P1 defnyddio a chadw cyfarpar a deunyddiau'n unol a gweithdrefnau'ch sefydliad
P2 sicrhau bod y gweithle'n rhydd rhag peryglon a'i fod yn ddiogel ac yn lan
P3 adnabod a delio a sefyllfaoedd peryglus o fewn terfynau'ch awdurdod eich hun
P4 cymryd camau i rybuddio pobl eraill am sefyllfaoedd peryglus
P5 cyfeirio unrhyw awgrymiadau ynglŷn a gwella iechyd a diogelwch i'r bobl berthnasol
P6 delio ag argyfyngau yn unol a gweithdrefnau'ch sefydliad
P7 sicrhau bod eich arferion gwaith yn unol a gweithdrefnau'ch sefydliad
P8 llenwi unrhyw ddogfennau gwaith yn gywir a'u prosesu'n gywir

Cyfrannu i Amgylchedd Gweithio Diogel

Rhaid i chi allu:

P9 cyflawni'ch cyfrifoldebau'ch hun am roi systemau a gweithdrefnau diogelwch yn eu lle
P10 cael ymwelwyr i gadarnhau eu hunaniaeth lle bo angen
P11 delio ag eiddo coll, gan gynnwys pecynnau amheus, yn unol a gweithdrefnau'ch sefydliad
P12 ymateb yn ddi-oed i dor-diogelwch o fewn terfynau'ch awdurdod eich hun yn unol a gweithdrefnau'ch sefydliad
P13 trosglwyddo unrhyw awgrymiadau ynglŷn a gwella diogelwch yn ddi-oed i'r unigolyn perthnasol

PPLROS3W
Cynnal amgylchedd iach a diogel yn y diwydiant rheilffyrdd

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Cynnal Gweithle Iach a Diogel

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 y cyfreithiau a rheolau perthnasol yn eich sefydliad ynglŷn ag iechyd a diogelwch
K2 gweithdrefnau'ch sefydliad ar gyfer iechyd a diogelwch
K3 gweithdrefnau'ch sefydliad ar gyfer delio a sefyllfaoedd argyfyngus
K4 beth sy'n cael ei ystyried yn amgylchedd gweithio (er enghraifft cyfarpar, safle, cerbydau)
K5 beth yw'r gweithdrefnau sefydliadol, cyfleusterau ac ardaloedd gwaith lleol
K6 pa arwyddion rhybudd sydd i'w cael a beth y maent yn ei olygu
K7 beth yw terfynau'ch awdurdod eich hun
K8 pa ddogfennau sydd eu hangen ar eich sefydliad
K9 beth sy'n cael ei ystyried yn sefyllfa beryglus
K10 gweithdrefnau'ch sefydliad ar gyfer delio a sefyllfaoedd peryglus
K11 pwy yw'r bobl berthnasol yn eich sefydliad

Cyfrannu i Amgylchedd Gweithio Diogel

Mae angen i chi wybod a deall:

K12 gweithdrefnau'ch sefydliad ar gyfer delio ag argyfwng
K13 beth sy'n cael ei ystyried yn dor-diogelwch
K14 polisi'ch sefydliad ynglŷn a derbyn ymwelwyr
K15 gweithdrefnau'ch sefydliad ar gyfer delio ag eiddo coll a phecynnau amheus
K16 systemau a gweithdrefnau diogelwch eich sefydliad
K17 beth yw terfynau'ch awdurdod eich hun
K18 pwy yw'r bobl berthnasol yn eich sefydliad

PPLROS3W

Cynnal amgylchedd iach a diogel yn y diwydiant rheilffyrdd

Gwybodaeth ychwanegol

Geirfa

Perygl - Rhywbeth sydd a'r potensial i achosi niwed (gall hyn gynnwys eitemau, sylweddau offer neu beiriannau, dulliau gweithio, yr amgylchedd gweithio ac agweddau eraill ar drefniadaeth weithio)

PPLROS3W

Cynnal amgylchedd iach a diogel yn y diwydiant rheilffyrdd

Datblygwyd gan	People 1st
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Ebrill 2009
Dyddiad adolygu a awgrymir	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	GoSkills
RCU gwreiddiol	ROS 3
Galwedigaethau perthnasol	Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Cludiant; Gyrwyr a Gweithwyr Cludiant
Cyfres/Set	Rheilffyrdd - Goruchwylio
Geiriau Allweddol	